***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 1806

## Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) (Diwygio) 2002

### Diwygio Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001

**6.** Mewnosodwch y rheoliad canlynol ar ôl rheoliad 3—

"**Gostyngiad yn y Tir Perthnasol"**

**3A.**—(1) Pan fo gan geisydd swmp cyfeiriol unigol o laeth ar gael, bydd gostyngiad sy'n cael ei gyfrifo yn unol â darpariaethau paragraff (2) yn cael ei gymhwyso i dir perthnasol y ceisydd.

(2) Bydd y gostyngiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn cael ei gyfrifo yn unol ag is-baragraffau (i) i (iii)—

(i) yn gyntaf, cyfrifir nifer yr unedau da byw yn y fuches laeth dybiannol drwy rannu'r swmp cyfeiriol unigol o laeth sydd ar gael i'r ceisydd gan 5730, sef nifer y litrau o laeth y tybir ei fod yn gyfwerth â chynnyrch blynyddol un fuwch odro;

(ii) am bob hectar o ddaliad y ceisydd nad yw o fewn tir llai ffafriol, gostyngir nifer yr unedau da byw a gyfrifir yn unol â pharagraff (i) o 2 uned;

(iii) defnyddir nifer yr unedau da byw sy'n weddill ar ôl cymhwyso is-baragraff (ii) er mwyn cyfrifo'r gostyngiad yn y tir perthnasol drwy ostwng arwynebedd y tir hwnnw o 1 hectar ar gyfer pob 2 uned da byw sy'n weddill, ac mae'r gostyngiad i'w gymhwyso'n llawn mewn perthynas â thir dan anfantais cyn ei gymhwyso i dir dan anfantais difrifol.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y fuches laeth dybiannol" ("notional dairy herd") yw cyfanswm yr anifeiliad y bernir eu bod yn fuches laeth ar dir sy'n cael ei ffermio gan y ceisydd yng Nghymru fel y'i cyfrifwyd uchod ac mae i "swmp cyfeiriol unigol o laeth" yr un ystyr ag i "individual reference quantity of milk" yn Erthygl 31 o Reoliad y Comisiwn (EC) 2342/1999(**1**).".

(**1**) O.J. Rhif L281, 04.11.99, t.30.